CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor, nos Lun 4 Medi 2017**

Presennol: Cadeirydd y Cyng B Rees, Cyngr Iwan Davies, Mrs Amanda Edwards, Ken Symmons, Mrs Kay Morgan, Hywel Davies, Mrs Nicky Redmund

Clerc

CS C Davies

Aelodau'r Cyhoedd: 0

**1. Ethol Cadeirydd**
Cyflwynodd y Cyng B Rees ei ymddiswyddiad fel Cadeirydd y Cyngor Cymuned, i ddod o rym wrth ethol Cadeirydd newydd yn y cyfarfod ar 4.09.17. Croesawodd bawb i'r cyfarfod a gobeithiai fod pawb wedi cael haf da. Dywedodd ei fod yn ymddiswyddo am ei fod yn teimlo, o gofio'i ymrwymiadau teuluol, nad oedd yn deg iddo barhau yn y swydd. Fel y Cadeirydd yn ymadael, cynhaliodd y broses o ethol y Cadeirydd newydd, ac yn dilyn hynny fe adawodd y Swydd.

Cynigiodd y Cyng Mrs K Morgan y dylid ethol y Cyng I Davies yn Gadeirydd. Eiliwyd gan y Cyng Mrs N Redmond, a chytunwyd yn unfrydol.

Llofnododd y Cyng I Davies ei Ddatganiad Derbyn Swydd a derbyniodd Gadwyd y Swydd oddi wrth y Cadeirydd oedd yn ymadael.

**2. Ethol Is-gadeirydd**
Ar ôl trafodaeth, cynigiodd y Cyng Mrs N Redmund y dylid gohirio ethol Is-gadeirydd tan y cyfarfod ym mis Hydref. Eiliwyd gan y Cyng B Rees, a chytunwyd yn unfrydol.

**3. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriad wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs E Davies.

**4. Gweddi Agoriadol**
Roedd y Clerc wedi cael ar ddeall mai'r drefn a argymhellid nawr oed cael y weddi cyn agor y cyfarfod fel y gallai Cynghorwyr nad oeddynt yn teimlo'n gyffyrddus yn cymryd rhan gyrraedd ar ôl adrodd y weddi. Nodwyd hynny.

**5. Datgelu Buddiannau Personol**
Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau nodi'r siart llif a oedd wedi'i ddarparu i helpu cynghorydd i benderfynu a oedd angen datgelu buddiant. Esboniodd yn gryno, os byddai Cyng yn amheus a oedd ganddo/ganddi fuddiant i'w ddatgelu, y gallai Swyddog Monitro'r Cyngor Sir helpu.

**6. Materion Personol**
Dim

**7. Ceisiadau Cynllunio**
*A170648* Amrywio amod 2 (plan safle gwahanol i ganiatau mynediad gwahanol i Lain 2 yng nghaniatâd cynllunio A110051 tir yn Nôl Dderwen, Llechryd.
Roedd y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais.

*A170732* Amlinelliad. Codi annedd, Llain gyferbyn â Sycharth, Lôn Helyg, Llechryd.
Er y nodwyd bod Llechryd wedi mynd dros ei gwota LDP ar bapur, mewn gwirionedd doedd nifer o'r caniatadau a roddwyd erioed wedi eu datblygu'n eiddo i fyw ynddo. Credai'r Cyngor Cymuned y byddai'r cais hwn, pe bae'n

cael ei ganiatáu, yn cael ei ddatblygu i ddarparu cartref teuluol i drigolion lleol a fyddai yn ei dro yn cefnogi'r gymuned leol, gan gynnwys yr ysgol.

*Trafod y ffaith fod CSC yn darparu ceisiadau cynllunio fel negeseuau e-bost yn unig.*
Dywedodd y Clerc ei bod, gyda chymorth y CS C Davies, wedi gofyn am i Adran Gynllunio CSC ddarparu dogfennau cynllunio fel copi caled yn unol â'r cytundeb gyda'r Cyngor Cymuned. Er gwaethaf hynny, dolenni e-bost yn unig oedd yn cael eu hanfon. Cytunwyd bod hyn yn 'fait accompli' ar ran y Cyngor Sir, ond byddai'r Cynghorwyr yn ymdrechu i edrych ar gynlluniau cyn y cyfarfod drwy ddefnyddio dolen e-bost. Byddai'r Clerc yn printio gwybodaeth sylfaenol am bob cais cynllunio.

*Mr C Lewis ynglŷn â chais A170500*
Roedd Mr Lewis yn pryderu nad oedd ei wrthwynebiadau wedi'u cofnodi ar wefan CSC, a nodwyd hefyd y diffyg hysbysiad i'r CS ynglŷn â'r cais hwn.

*Cymorth cynllunio Cymru, digwyddiad hyfforddiant 25 Medi*. Dywedodd y Clerc ei bod eisoes wedi trefnu lle drwy Gyngor Cymuned Llandudoch. Cytunwyd, gan fod y digwyddiad yn berthnasol i Langoedmor hefyd, y byddai'r Cyngor Cymuned yn talu hanner costau'r Clerc am fod yn bresennol.

**8. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Gofynnodd y CS C Davies a oedd y Cyngor Cymuned yn bwriadu hawlio'r costau'n gysylltiedig â'r digwyddiad yn ddiweddar pan aeth defaid i mewn i'r cae hamdden a'r lle chwarae.

Dywedodd fod Tai Ceredigion nawr wedi cynnwys pob llain bentref a oedd yn eiddo iddo yn ei amserlen torri porfa am y flwyddyn i ddod, a bod y cais am fwy o lwybrau troed yn Llechryd wedi ei nodi gan Adran Briffyrdd CSC. Credai y byddai'r CS yn darparu dogfen i gefnogi'r cais, ac roedd drafft o honno wedi'i lunio dros yr haf. Gofynnwyd a allai deiseb i gael llwybr troed i Aberteifi helpu cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen, a chytunwyd i edrych i mewn i hyn ymhellach.

Dywedodd fod y rhaglen Cyflymdra Cymunedol yn golygu bod angen isafswm o wirfoddolwyr a hyfforddiant ffurfiol gan yr Heddlu. Roedd hynny'n golygu cysylltu â gyrwyr a oedd yn troseddu'n gyson ond nid yn cael tocyn dan y cynllun. Awgrymodd y dylai trigolion a oedd yn pryderu am y cyflymdra yn y pentref gysylltu â 'Go-Safe'. Dywedodd y Clerc fod gwybodaeth bellach ar gael ar wefan y CS.

Dywedodd fod y CS wedi cael gwybod am broblemau gyda ffabrig yr ysgol a oedd wedi cael sylw. Diolchwyd iddo am ei gymorth gyda'r mater hwn.

Dywedodd y Cyng Mrs N Redmond wrth y CS C Davies fod Cinio'r Henoed wedi ei drefnu ar gyfer 4 Rhagfyr a gobeithiai y byddai'r Cyng yn gallu bod yn bresennol.

**9. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng H Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng Mrs N Redmond, a chytunwyd yn unfrydol.

**10. Materion yn Codi**
Cadarnhaodd y Cyng Mrs A Edwards ei bod wedi sefydlu tudalen FB y pentref, ac er nad hi'n unig oedd yn gyfrifol am hon, teimlai y gellid gosod newyddion y CC yno.

**11. Cyllid a Gweinyddu**

**Talwyd:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 26.07.17 | Gwasanaethau Cynnal a Chadw a Pheirianneg | Trwsio'r siglen | 381.60 | |
| | Mary Jones | Cyfieithu | 120.00 | |
| | HMRC | Treth | 3.20 | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y Cartref | 25.00 | |
| 30.07.17 | S E Houghton | Cyflog | 326.98 | AS: 327.18<br>Gordalwyd 2 geinio |
| 14.18.17 | Glasdon UK Ltd | Sedd yn y fynwent | 564.69 | |
| | Mr E Brown | Torri'r borfa | 492.00 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd | 32.00 | |

| | | |
|---|---|---|
| Abacus Cleaning Services | Peintio’r siglen | 314.00 |

**I Dalu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.09.17 | Abacus | Glanhau'r bloc toiledau | 170.00 | |
| | | Cysgodfannau Bysiau | 76.00 | |
| | | Golchi yn y cae chwarae | 85.00 | |
| | | | 331.00 | |
| | Mr E Brown | Torri’r borfa | 492.00 | |
| | Arjay Factors | Bagiau biniau | 14.38 | |
| | SSE | Trydan yn y bloc toiledau | 29.85 | |
| | Playsafe Ltd | Archwiliad RoSPA o’r Cae Chwarae | 92.40 | |
| | Apêl Pabis RBL | Torch | 17.00 | |
| | Dai Hughes Ltd | Trwsio’r Cysgodfannau Bysiau | 497.69 | |
| | HMRC | Treth | 2.50 | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y Cartref 25, postio 6.72 | 31.72 | |
| 30.09.17 | S E Houghton | Cyflog | 327.18 | AS |

Ar ôl trafodaeth cytunwyd i geisio adennill costau glanhau’r cae chwarae ar ôl i ddefaid strae gael eu rhoi yno.
GWEITHREDU: i’w wneud GAN: y Clerc
Cynigiwyd y taliadau gan y Cyng B Rees, eiliwyd gan y Cyng Mrs A Edwards, cytunwyd yn unfrydol.

*Contract torri’r borfa*
Dywedodd y Clerc y dylai’r contract gael ei hysbysebu i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a’r holl ofynion. Roedd angen rhywun o hyd i wacau’r biniau dros y gaeaf. Gofynnwyd a oedd y bin y tu ôl i’r Neuadd yn wir yn eiddo i’r Neuadd. Fel aelodau o Bwyllog y Neuadd, credai’r Cyngr Mrs A Edwards a Mrs N Redmund nad oedd, ond byddent yn codi’r mater gyda’r Pwyllgor.
GWEITHREDU: Hysbysebu ar fyrddau lleol a chysylltu ag Abacus GAN: y Clerc

*Contract Glanhau*
Dywedodd y Clerc y dylai’r contract gael ei hysbysebu i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â’r holl ofynion.
GWEITHREDU: Hysbysebu ar fyrddau lleol GAN: Y Clerc

*Cyllideb*
Dywedodd y Clerc y byddai cylch y gyllideb yn cychwyn yng nghyfarfod mis Hydref i’w gwblhau ym mis Rhagfyr. Gofynnodd i unrhyw un oedd ag unrhyw syniadau am brosiectau roi gwybod iddi. Awgrymwyd y gallai gosod eitem ar dudalen FB y pentref yn gofyn am syniadau weithio.
GWEITHREDU: GAN: y Clerc

*Cyfraith Diogelu Data*
Dywedodd y Clerc fod cyfraith Diogelu Data i gael ei newid yn 2018 a’i bod yn rhaid i’r Cyngor gydymffurfio. Nid oedd hi’n siŵr hyd yma yn union beth y byddai angen i’r Cyngor ei wneud, ond roedd ar ddeall y byddai Un Llais Cymru yn darparu arweiniad pellach.

*Meinciau*
Roedd un fainc wedi ei rhoi yn yr Eglwys a’r gost wedi’i thalu. Roedd angen ei gosod yn ei lle. Dylai mainc y Cofio gyrraedd cyn Sul y Cofio. Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards fod Mr Leigh wedi cysylltu â’r Cyngor i ddiolch am gymorth y Cyngor i leoli a gosod mainc er cof am ei wraig.

*Dyfynbris am adnewyddu’r aradr yn adeilad y Mileniwm*
Roedd un dyfynbris wedi cyrraedd, ond teimlid bod angen gwaith arbenigol. Cynigiwyd enw un cwmni lleol a byddai’r Clerc yn chwilio am ragor.
GWEITHREDU: i’w wneud GAN: y Clerc

*'Arbed' Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru – Llechryd*
Nid oedd ymateb ffurfiol hyd yma i'r cwestiwn a fyddai arian ar gael, ond ni thynnwyd sylw at unrhyw gynlluniau neu gyrff lleol. Awgrymwyd y Neuadd, y clwb criced, y parc a'r Eglwys.

Roedd dyfynbrisiau wedi dod ar gyfer chwistrellu'r trac yn y cae chwarae. Cytunwyd i roi'r gwaith i Tofts.
GWEITHREDU: i'w wneud GAN: y Clerc

Nodwyd nad oedd y trac yn wyneb dymunol iawn ac y dylid efallai roi tarmac drosto. Roedd angen sylw hefyd ar y darn concrid yn y man chwarae. Ar ôl trafodaeth cytunwyd i restru enwau cwmnïau y gellid gofyn iddyn nhw gynnig tender ac i lunio drafft o fanylion ar gyfer y gwaith.
GWEITHREDU: i'w wneud GAN: y Clerc

*Llythyr pellach oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi*
Dywedodd y Clerc nad oedd hi eto wedi cael cyfle i edrych ar y gwaith angenrheidiol yn fanwl, a theimlai nad oedd ganddi'r gallu na'r profiad. Cytunodd y Cyng Mrs A Edwards yn garedig i edrych ar y wybodaeth a rhoi ei barn.
GWEITHREDU: i'w wneud GAN: y Cyng Mrs A Edwards

**12. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Llwybrau Troed a Theithio Llesol*
Nodwyd ymateb CSC ynglŷn â'r llwybr troed i Aberteifi / Teithio Llesol ac y byddai'r darn 4km yn golygu lefelau sylweddol o arian yn fwy nag arian CSC mewn ardaloedd gwledig. Croesawyd y posibilrwydd y gellid ei gynnwys i'w ystyried yn y Map Rhwydwaith Integredig i gael ei gyflwyno ym mis Medi 2020.

*Adolygu'r ddogfen ddrafft ar 'lwybrau troed; wedi'i chynhyrchu gan y Cyng Mrs E Davies a'r Clerc.*
Anfonwyd y ddogfen ddrafft o gwmpas a dywedwyd bod y Cyng Mrs E Davies a'r Clerc yn bwriadu cerdded y llwybr ac ychwanegu rhagor o fanylion. Byddai'r Cynghorwyr i gyd yn cael gwybod dyddiad y daith gerdded a byddai croeso iddyn nhw ymuno.

Roedd y rhestr o fannau ar hyd ymyl y ffordd lle'r oedd tyfiant yn golygu bod angen sylw gan yr adran Briffyrdd wedi'i rhoi i CSC. Mewn rhai achosion roedd y tyfiant yn gorfodi cerbydau i ganol ffyrdd a oedd eisoes yn gul gan achosi perygl.

*Yr Ysgol*
Terfyn/parth 20mya wrth Ysgol Llechryd.
Roedd bwriad i ofyn i'r ysgol roi pwysau ar CSC i ostwng cyflymdra ar y brif ffordd A484. Yn ei ohebiaeth flaenorol dywedodd CSC fod costau darparu 'parth' yn rhy uchel. Gofynnwyd a ellid darparu croesfan i gerddwyr.

*Ffensio*
Roedd awgrym wedi'i gyflwyno i godi ffens rhwng Glannant a'r ystâd gyfagos. Cytunwyd i gysylltu â West Wales Housing.
GWEITHREDU: i'w wneud GAN: y Clerc

*Blychau Blodau*
Nid oedd Tai Ceredigion yn gwrthwynebu cael gwely blodau o bren cyn belled ag y câi ei gadw mewn cyflwr da ac na fyddai'r planhigion yn cuddio arwydd ystâd Preseli View. Roedd arwyddion yn cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd a byddai'r CC yn cael gwybod pan fyddai'r gwaith hwn wedi'i orffen. Ond er hynny, wrth wella tirweddu ystadau yn y dyfodol gallai Tai Ceredigion ofyn am i'r blwch blodau a'r fainc gael eu symud rywle arall, er y byddai Tai Ceredigion yn gwneud popeth posibl i ddarparu ar gyfer y cyfarpar. Cytunwyd i weld a oedd yna sail goncrid i gysylltu mainc wrthi yn ymyl y gysgodfan, oherwydd roedd gan y Cyngor arian i brynu un.

*Cysgodfan Bysiau*
Nodwyd bod y gwaith trwsio wedi'i gwblhau**.**

**13. Amwynderau**
*Bloc toiledau:* Nid oedd y Clec hyd yma wedi cael gwybodaeth am leoli camerâu yn y parc ceir a byddai'n mynd ar eu hôl eto i gael gwybodaeth.

*Dyfynbris ar gyfer golau uwchben y diffibrileiddiwr* – i ddod.

*Gwaith ar y cae chwarae*
Diolchodd y Clerc i bawb a oedd wedi helpu gyda'r digwyddiad gyda'r defaid.
Cafodd gwaith arall ei drin dan Cyllid a Gweinyddu.

*Gât*
Cytunwyd y dylid gosod arwydd 'Please close the gate / Caewch y gât. Diolch'.

*Archwiliad blynyddol y man chwarae*
Y prif bwynt a godwyd oedd gosod y gôl yn ei lle. Ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai'r Cyng A Edwards yn gofyn am gyngor ac yn gweithio gyda'r Cadeirydd a'r Cyng H Davies i fynd â'r mater yn ei flaen.
GWEITHREDU: i'w wneud GAN: y Cyng Mrs A Edwards.

*Gwely llwyni*
Mr E Brown i'w glirio a gofyn iddo dorri'r cloddiau.

*Biniau*
Roedd y bin ar olwynion wedi cyrraedd ac roedd angen i'r allweddi a'r bagiau fod ar gael i Mr Brown. Byddai angen i'r Cyngor ddod o hyd i rywun i wacau'r biniau yn y gaeaf.

**14. Prosiectau'n parhau**
*Adnewyddu'r hysbysfwrdd*
Roedd un dyfynbris wedi dod ar gyfer adnewyddu'r hysbysfwrdd yn y parc ceir.
Awgrymodd y Cyng B Rees y byddai'n well ei ddefnyddio fel uned arddangos blodau a bwrdd newydd yn cael ei osod ar wal y bloc toiledau. Ar ôl trafodaeth cytunwyd i edrych ar ddefnyddio'r bwrdd presennol ar gyfer arddangos gwybodaeth barhaus yn lle stondin blodau, ac i gael cost darparu hysbysfwrdd 3 rhan ar gyfer wal y bloc toiledau, un rhan i allu ei chloi a dwy yn agored i'r cyhoedd. Byddai'r Clerc yn ceisio dod o hyd i'r dogfennau gwreiddiol am y bwrdd yn y parc ceir.
GWEITHREDU: Holi GAN: y Clerc

**15. Digwyddiadau**
*Sul y Cofio*
Roedd y Cyng Mrs K Morgan wedi cysylltu â'r Ficer a oedd eisoes yn cymryd gwasanaeth Sul y Cofio. Roedd ef wedi awgrymu cynnal gwasanaeth byr ddydd Sadwrn 11fed a'r funud o dawelwch am 11am ac o bosibl cyflwyno sedd y cofio newydd. Cytunwyd i weithredu ar hyn.
GWEITHREDU: Cadarnhau gyda'r Ficer GAN: y Cyng Mrs K Morgan.

*Goleuadau'r Nadolig*
*Byddai'r Cyhgr B Rees* yn siarad â'r ysgol i gael dyddiad. Y Clerc i drefnu gyda Mathew Penny pan fyddai dyddiad wedi'i gadarnhau.

**16. Adroddiadau**
Dim.

**17. Gohebiaeth / e- Ohebiaeth**
*Mr C Lewis ynglŷn â safle Digwyddiadau Llechryd*
Cytunwyd bod y wefan newydd ar gyfer digwyddiadau yn syniad da ac nad oedd gan y CS ddim gwrthwynebiad i gael dolen at ei safle.

*Gohebiaeth i'w nodi:*
Clystyru: cefnogaeth ariannu ar gael yn 2017-18

Un Llais Cymru - Cod Diwygiedig Trefniadaeth Ysgolion

Ymgynghoriad - Diwygio Etholiadol

Bagiau Ailgylchu Newydd

Crynodeb o Ymatebion – Ymgynghori ar gynigion i wahardd defnyddio micro-gleiniau mewn colur a nwyddau gofal personol yn y DG

Darllenwch ein Harolwg Blynyddol diweddaraf 2016/17 Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Llythyr Newyddion y gwasanaeth tân Calon Tân Rhifyn 1 - Haf 2017

Un Llais Cymru: Etifeddiaeth Siarter Coed

Un Llais Cymru: Is-gadeirydd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**18. Cyfnewid Gwybodaeth**
Roedd y Cyng B Rees yn bwriadu ymddiswyddo fel y Llywodraethwr Ysgol wedi'i benodi gan y CC a byddai angen cyflwyno enw yn ei le pan fyddai CSC yn cysylltu â'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r swydd wag.

Nodwyd y dylai'r Cyngor gael adroddiad yn y Tivyside yn rheolaidd. Ymddiheurodd y Clerc gan ei bod weithiau'n cael anhawster i gael hyd i'r wybodaeth briodol.

Dywedodd y Cyng Mrs N Redmund fod bwriad i drefnu Cinio Nadolig i'r Henoed ar 4 Rhagfyr. Cytunwyd yn gyffredinol, pan fyddai rhagor o wybodaeth ar gael, y byddai'r Cyngor yn ystyried bod yn bartner gyda'r Pwyllgor Parti neu fel arall gynnig rhoi arian grant i dalu am y digwyddiad.

Dywedodd y Cyng Mrs K Morgan fod y Cwrdd Diolchgarwch i ddigwydd yn yr Eglwys ar 1 Hydref am 6pm. Croeso i bawb.

**19. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2.10.17 - 7.00pm**

Os bydd unrhyw faterion cyfrinachol yn codi, bydd y Cyngor yn gwneud y penderfyniad canlynol, a gofynnir i holl aelodau'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod bryd hynny: *Penderfyniad: Oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, Adran. 1*

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 10.05pm.*